## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan y Rheoliadau hyn caiff y Cynulliad Cenedlaethol dalu grantiau fel cymhellion i annog mwy o bobl i ddilyn cyrsiau ôl-raddedig o hyfforddiant sy'n seiliedig mewn colegau ac sydd wedi'u dylunio'n unswydd i'w paratoi i addysgu personau sy'n dilyn addysg bellach mewn sefydliadau addysg bellach neu mewn mannau eraill.

O dan y Rheoliadau, caiff y Cynulliad Cenedlalaethol dalu'r grant i gyd tra bod y derbynnydd yn dilyn yr hyfforddiant neu, ar y llaw arall, dalu rhan o'r grant tra bod y derbynnydd yn dilyn yr hyfforddiant a thalu rhan ar ôl iddo neu iddi gwblhau'r hyfforddiant ac ymgymryd â swydd addysgu. Yn yr achos olaf, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, mewn achos person sy'n cael rhandaliadau grant mewn perthynas â chwrs mewn sefydliad yn Lloegr y mae grantiau tebyg yn daladwy ar ei gyfer o dan drefniadau cyfochrog, dalu unrhyw randaliadau sy'n weddill y byddai gan y person hwnnw hawl iddynt o dan y Rheoliadau hyn pe bai wedi cwblhau cwrs yng Nghymru y byddai grant wedi'i dalu ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn.

Mae *Rheoliad 2* yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn.

Mae *Rheoliad 3* yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i dalu grantiau fel cymhellion i bersonau sy'n gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr i ddilyn cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant athrawon o'r math y cyfeirir atynt uchod.

Mae *Rheoliad 4* yn nodi nifer o achosion lle na ellir talu grantiau o dan Reoliad 3, ond yn darparu nad yw hyn yn cyfyngu ar bŵer y Cynulliad Cenedlaethol i fabwysiadu meini prawf cymhwyster ar gyfer grantiau o'r fath.

Mae *Rheoliad 5* yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu grant o dan Reoliad 3 ar yr amod ei bod yn ofynnol ei ad-dalu o dan amgylchiadau penodedig.

Mae *Rheoliad 6* yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu swm y grant, y gellir ei dalu naill ai mewn cyfandaliad neu mewn rhandaliadau (y gellir gohirio rhai ohonynt hyd nes bod y person wedi cwblhau'r cwrs ac wedi ymgymryd â swydd addysgu). Mae hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfeirio taliadau'r grant drwy'r sefydliad sydd o dan sylw.